Applicant Privacy Notice (Compliant with GDPR)

As part of any recruitment process, Chwarae Teg collects and processes personal data relating to job applicants. Chwarae Teg is committed to being transparent about how it collects and uses that data and to meeting its data protection obligations.

What information does Chwarae Teg collect?
We collect a range of information about you. This includes:

- Your full name, address and contact details, including email address and telephone number;
- Details of your qualifications, skills, experience and employment history, including referee contact details;
- Information about your current level of remuneration
- Whether or not you have a disability for which Chwarae Teg needs to make reasonable adjustments during the recruitment process; and
- Information about your entitlement to work in the UK.
- Information provided within the Equal Opportunities/Diversity Monitoring form.

We may collect this information in a variety of ways. For example, data might be contained in application forms, obtained from your passport or other identity documents, or collected through interviews or other forms of assessment. We may also collect personal data about you from third parties, such as references supplied by former employers. We will seek information from third parties only once a job offer to you has been made and we will inform you that we are doing so. Data will be stored in a range of different places, including on your application record, in our HR management systems and on other IT systems (including email).

Why does Chwarae Teg process personal data?
We need to process data to take steps at your request prior to entering into a contract with you. We may also need to process your data to enter into a contract with you. In some cases, we may need to process data to ensure that it is complying with its legal obligations. For example, we are required to check a successful applicant's eligibility to work in the UK before employment starts.
Chwarae Teg has a legitimate interest in processing personal data during the recruitment process and for keeping records of the process. Processing data from job applicants allows us to manage the recruitment process, assess and confirm a candidate's suitability for employment and decide to whom to offer a job. We may also need to process data from job applicants to respond to and defend against legal claims. Chwarae Teg may process special categories of data, such as information about ethnic origin, sexual orientation or religion or belief, to monitor recruitment statistics. We may also collect information about whether or not applicants are disabled, to make reasonable adjustments for candidates who have a disability. We will process such information to carry out our obligations and exercise specific rights in relation to employment.

Who has access to data?
Your information may be shared internally for the purposes of the recruitment exercise. This includes members of the People Team, those involved in the recruitment process, managers in the business area with a vacancy and relevant staff (including contracted external IT support or our external funders) if access to the data is necessary or justified for the performance of their roles. We will not share your data with third parties, unless your application for employment is successful and we make you an offer of employment. We may then share your data with former employers to obtain references for you, employment background check providers to obtain necessary background checks and to obtain necessary criminal records checks (as appropriate to the job).

How does Chwarae Teg protect data?
We take the security of your data seriously. We have internal policies and (administrative, physical and technical) controls in place to ensure that your data is not lost, accidentally destroyed, misused or disclosed, and is not accessed except by our employees in the proper performance of their duties.

For how long does Chwarae Teg keep data?
If your application for employment is unsuccessful, we will hold your data on file for 12 months after the end of the relevant recruitment process. At the end of that period, your data is deleted or destroyed. You will be asked within the job application form to indicate your consent (or otherwise) for Chwarae Teg to utilise your personal details, for a period of 6 months after the end of the relevant recruitment process, for consideration of future employment opportunities.
If your application for employment is successful, personal data gathered during the recruitment process will be transferred to your personnel file (electronic and paper-based) and retained during your employment. The periods for which your data may be held, are provided in our Data Protection Policy.

Your rights
As a data subject, you have a number of rights. You can:

- Access and obtain a copy of your data on request;
- Require the Employer to change incorrect or incomplete data;
- Require the Employer to delete or stop processing your data, for example where the data is no longer necessary for the purposes of processing; and
- Object to the processing of your data where the Employer is relying on its legitimate interests as the legal ground for processing.
- Withdraw your consent at any point, where processing is based upon your consent.

If you would like to exercise any of these rights, please contact recruitment@chwaraeteg.com. If you believe that Chwarae Teg has not complied with your data protection rights, you can complain to the Information Commissioner.

What if you do not provide personal data?
You are under no statutory or contractual obligation to provide data to Chwarae Teg during the recruitment process. However, if you do not provide the information, we may not be able to process your application properly or at all.

Hysbysiad Preifatrwydd Ymgeiswyr (Yn cydymffurfio â'r GDPR)

Fel rhan o unrhyw broses recriwtio, mae Chwarae Teg yn casglu ac yn prosesu data personol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi. Mae Chwarae Teg wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ynglŷn â sut mae'n casglu ac yn defnyddio'r data hwnnw ac i gyflawni ei rwymedigaethau diogelu data.

Pa wybodaeth mae Chwarae Teg yn ei chasglu?
Rydym yn casglu ystod o wybodaeth amdanoch chi. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Eich enw llawn, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn
- Manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth, gan gynnwys manylion cyswllt canolwyr
- Gwybodaeth am eich lefel gyfredol o dâl
- P'un a oes gennych anabledd y mae angen i Chwarae Teg wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer yn ystod y broses recriwtio
- Gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y DU
- Gwybodaeth a ddarperir yn y ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal/Amrywiaeth

Mae'n bosib y byddwn yn casglu'r wybodaeth hon mewn sawl ffordd. Er enghraifft, gallai data gael ei gynnwys mewn ffurflenni cais, ei gael o'ch pasbort neu ddogfennau adnabod eraill, neu ei gasglu trwy gyfweliadau neu fathau eraill o asesu. Efallai y byddwn hefyd yn casglu data personol amdanoch gan drydydd partïon, megis geirdaon gan gyn-gyflogwyr. Byddwn yn ceisio gwybodaeth gan drydydd partïon dim ond ar ôl i gynnig swydd gael ei wneud a byddwn yn eich hysbysu ein bod yn gwneud hynny. Bydd data'n cael ei storio mewn ystod o wahanol leoedd, gan gynnwys ar eich cofnod cais, yn ein systemau rheoli adnoddau dynol, ac ar systemau TG eraill (gan gynnwys e-bost).

Pam mae Chwarae Teg yn prosesu data personol?
Mae angen i ni brosesu data i gymryd camau ar eich cais cyn inni ymrwymo i gontract gyda chi. Efallai y bydd angen i ni brosesu'ch data hefyd i ymrwymo i gontract gyda chi. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i ni brosesu data i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol i ni wirio cymhwysedd ymgeisydd llwyddiannus i weithio yn y DU cyn i'r gyflogaeth ddechrau.
Mae gan Chwarae Teg ddiddordeb dilys mewn prosesu data personol yn ystod y broses recriwtio ac mewn cadw cofnodion o'r broses. Mae prosesu data gan ymgeiswyr am swyddi yn caniatáu inni reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau addasrwydd ymgeisydd ar gyfer cyflogaeth, a phenderfynu i bwy i gynnig swydd. Efallai y bydd angen i ni hefyd brosesu data gan ymgeiswyr am swyddi i ymateb i hawliadau cyfreithiol, ac amddiffyn yn eu herbyn. Gall Chwarae Teg brosesu categorïau arbennig o ddata, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, neu grefydd neu gred, i fonitro ystadegau recriwtio. Efallai y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth ynghylch a yw ymgeiswyr yn anabl ai peidio, er mwyn gwneud addasiadau rhesymol i ymgeiswyr ag anabledd. Byddwn yn prosesu gwybodaeth o'r fath i gyflawni ein rhwymedigaethau ac arfer hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Pwy sydd â mynediad at ddata?
Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fewnol at ddibenion yr ymarfer recriwtio. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r Tîm Pobl, y rhai sy'n ymwneud â'r broses recriwtio, rheolwyr yn y maes busnes sydd â swydd wag, a staff perthnasol (gan gynnwys cymorth TG allanol dan gontract neu ein cyllidwyr allanol) os oes angen mynediad i'r data, neu y gellir ei gyfiawnhau, er mwyn cyflawni eu rolau. Ni fyddwn yn rhannu eich data â thrydydd partïon, oni bai fod eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus a'n bod yn gwneud cynnig swydd i chi. Yna, efallai y byddwn yn rhannu eich data â chyn-gyflogwyr i gael geirda, ac â darparwyr gwirio cefndir cyflogaeth i gael gwiriadau cefndir angenrheidiol ac i gael gwiriadau cofnodion troseddol angenrheidiol (fel sy'n briodol i'r swydd).

Sut mae Chwarae Teg yn diogelu data?
Rydym yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif. Mae gennym bolisïau a rheolaethau mewnol ar waith (gweinyddol, ffisegol a thechnegol) i sicrhau na chaiff eich data ei golli, na'i ddinistrio, ei gamddefnyddio na'i ddatgelu ar ddamwain, ac na chaiff ei gyrchu ac eithrio gan ein gweithwyr wrth gyflawni eu dyletswyddau'n briodol.

Am ba hyd y mae Chwarae Teg yn cadw data?
Os bydd eich cais am gyflogaeth yn aflwyddiannus, byddwn yn cadw'ch data ar ffeil am 12 mis ar ôl diwedd y broses recriwtio berthnasol. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, caiff eich data ei ddileu neu ei ddinistrio. Gofynnir i chi yn y ffurflen gais am swydd nodi'ch caniatâd (neu fel arall) i Chwarae Teg ddefnyddio'ch manylion personol, am gyfnod o chwe mis ar ôl diwedd y broses recriwtio berthnasol, i ystyried cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.
Os yw'ch cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, bydd data personol a gesglir yn ystod y broses recriwtio yn cael ei drosglwyddo i'ch ffeil bersonél (electronig a phapur) a'i gadw yn ystod eich cyflogaeth. Darperir y cyfnodau am gadw'ch data yn ein Polisi Diogelu Data.

Eich hawliau
Fel testun data, mae gennych nifer o hawliau. Gallwch wneud y canlynol:

- Cyrchu a chael copi o'ch data ar gais
- Mynnu bod y cyflogwr yn newid data anghywir neu anghyflawn
- Mynnu bod y cyflogwr yn dileu neu roi'r gorau i brosesu'ch data, er enghraifft pan nad oes angen y data mwyach at ddibenion prosesu
- Gwrthwynebu prosesu eich data pan fo'r cyflogwr yn dibynnu ar ei fuddiannau cyfreithlon fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu
- Tynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, pan fo'r prosesu yn seiliedig ar eich caniatâd

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â recruitment@chwaraeteg.com. Os credwch nad yw Chwarae Teg wedi cydymffurfio â'ch hawliau diogelu data, gallwch gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Beth os na fyddwch chi'n darparu data personol?
Nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol na chontractiol arnoch i ddarparu data i Chwarae Teg yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth, efallai na fyddwn yn gallu prosesu'ch cais yn iawn neu o gwbl.